# <u>Cofnodion Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>,

## Cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes- nos Iau, 7fed o Dachwedd, 2024 yn Ystafell Myrddin Neuadd Chwilog a drwy 'Zoom', am 6:30 y.h. o flaen y prif gyfarfod.

*<u>Ar y Pwyllgor</u>*: Y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, Sian Parry, Aled Davies, Anwen Jones, Tegid Jones, a'r Clerc.

*<u>Ymddiheuriadau - neb</u>*.

Ar y rhaglen.

1. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Busnes gynhaliwyd ar 5ed o Hydref, 2023.

2. **<u>Cyllideb 2024/25</u>** a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Roedd taflenni 'excel' wedi cael eu rhannu drwy ebost o flaen y cyfarfod, er mwyn ei cymharu gyda'r gyllideb a wnaed. Fe gedwir golwg manwl arnynt bob mis drwy anfon ebost at y Cynghorwyr o flaen pob cyfarfod, a bod y Cadeirydd wedyn yn llofnodi ei bod yn gywir.

- Y gyllideb arian /gwariant hyd at 31.03.2025 yn cael ei ddiweddaru'n fisol
- Y gyllideb arian / gwariant (amcangyfrif) am 2025-2026-angen trafod

Mae rhain yn dangos amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef diwedd Mawrth 2025.

Ar 31.10.2024 roedd y symiau isod yn y 2 cyfrif:-

| **Cyfrifon** | **£** | |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol | 21,254.77 | Cynnwys Lightsource a Grant Cronfa Park-Jones(£2000.00) |
| Cyfrif cadw | 4,727.18 | |
| **Cyfanswm** | **25,981.95** | |

3. **<u>Cynlluniau gwariant o rwan hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol yma.</u>**
Mae ambell beth angen ei talu, ond mae'r symiau i gyd yn dangos ar y rhestr 'rhagolwg'.
Cof Eifionydd – bydd y Grant a dderbyniwyd ar 29.06.2022 i sefydlu tudalen 'Cof Eifionydd,'yn cael ei dalu nol i Gronfa Park Jones yn fuan.

Fe ddaw ad-daliad am arian llwybrau hefyd gan Cyngor Gwynedd, tua £417.80. Bydd angen i'r Clerc anfon llythyr at yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Ionawr 2025, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned.

4. **<u>Prosiectau posibl, neu wedi ymrwymo iddynt am y flwyddyn Ebrill 2025 - 2026:-</u>**

- Cyngor Gwynedd-toiledau Llanystumdwy - £2000.00 y flwyddyn

- Tir y Cyngor Rhydybenllig – dim wedi ei wneud yno ers tro, ond efallai ei adael oherwydd yr adroddiad bioamrywiaeth.
- Wifi y 3 lleoliad bob blwyddyn.
- Cadw safle bedd Lloyd George yn daclus – tua £120.00 bob blwyddyn.
- Cae chwarae Llangybi – cynnal a chadw, a pheintio a thacluso'r fainc sydd yno.
- Unrhyw syniadau eraill – son efallai am y posiblrwydd o gael cais am gyfraniad ariannu i greu llyfrgell/clwb gwaith cartref unwaith yr wythnos yng Nghapel Siloh, cynnig tiwtora am ddim gan aelodau o'r gymund. Clerc i holi Un Llais Cymru.

5. **Arian Cyfraniad Budd-Cymunedol**, fferm solar Gelli Gron, Llangybi.
Derbyniwyd £5138.17 ar 16.01.2024, a oedd yn £418.22 yn fwy na'r flwyddyn cynt, a bydd swm tebyg yn cael ei dderbyn eleni.

Bydd angen talu am y Wifi i Neuaddau Llanystumdwy, Chwilog a Phencaenewydd. Llynedd roedd y ffigwr yma'n £948.07.

6**. Dewis Praesept 2025–2026** - fe godwyd y ffigwr i £20,000.00, eleni. Fe gynigiwyd ei godi i £20,500.00 am y flwyddyn ariannol 2024-2025, sef codiad sydd tua 2.5% fel chwyddiant, oherwydd fod costau yn codi'n flynyddol.
Bydd angen gwneud **penderfyniad terfynol yn y cyfarfod llawn ar 05.12.2024, er mwyn gallu hysbysu Cyngor Gwynedd.**

7. **Penderfynu faint o arian y dylid ei glustnodi ar gyfer y ceisiau ariannol Chwefror 2025.**
Llynedd talwyd £9,748.07 o'r cyfrif cyfredol (roedd hyn yn cynnwys cyfraniadau Wifi). Mae'n anodd dweud faint o geisiadau a ddaw eleni, ond bydd angen gwneud penderfyniad terfynol cyn y cyfarfod llawn fis Ionawr 2025. Cynigiwyd cyfrannu uchafswm hyd at £10,000.00 fis Chwefror 2025 at wahanol fudiadau fel rhoddion.

(Uchafswm gwariant yw *£10.81 x 1521* o boblogaeth o fewn cymuned Llanystumdwy = *£16,442.01*)